Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

National Assembly for Wales
Equality, Local Government and Communities Committee

Elin Jones AC
y Llywydd

7 Mehefin 2018

Annwyl Elin

Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru)

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 23 Mai ynglŷn â'r Bil.

Nid ydym yn rhagweld unrhyw anawsterau gyda'r amserlen a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

Rwy'n credu ei bod hi'n werth nodi bod disgwyl i'n Pwyllgor gynnal gwaith craffu cyfnod 2 ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) yn gynnar yn nhymor yr hydref, yn amodol ar basio'r penderfyniad ariannol ar y Bil. Roeddem am roi gwybod i chi am hyn er mwyn i chi allu ystyried y terfynau amser y byddwn yn gweithio tuag atynt ar gyfer y Bil Rhentu Cartrefi, pan fyddwch chi'n ystyried amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Bil Ombwdsmon.

Efallai eich bod yn cofio i ni gael achos dwbl tebyg o graffu deddfwriaethol gyda Bil yr Undebau Llafur (Cymru) a Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) y llynedd. Fe wnaethom osgoi achos dwbl arall o Filiau yn cael eu cyfeirio at ein Pwyllgor pan gyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Rydym yn gwerthfawrogi nad oedd modd rhagweld yr oedi gyda'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Fodd bynnag, mae'n atgyfnerthu barn y Pwyllgor yn ein llythyr atoch chi dyddiedig 19 Gorffennaf 2017 ynghylch faint o ddeddfwriaeth sy'n cael ei gyfeirio at ein Pwyllgor:

> Er ein bod yn cydnabod mai rhan bwysig o'n rôl yw gwneud gwaith craffu deddfwriaethol, nid yw'n ddelfrydol o gwbl bod swmp y gwaith craffu deddfwriaethol yn nwylo un pwyllgor. Mae hefyd yn cyfyngu ar allu Aelodau unigol i ddylanwadu a llunio'r flaenraglen waith, gyda'n rhaglen yn cael ei siapio yn y pen draw gan ffactorau allanol.

Hyderaf fod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir

John

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.